HEDDLU DE CYMRU

ADRODDIAD AR Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

2017



Cyflwyniad
Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jeremy Vaughan

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Heddlu De Cymru ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Fel y nodir yn Rheoliadau 2017 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol i gyflogwyr y sector cyhoeddus sydd â 250 o gyflogeion neu fwy gyhoeddi gwybodaeth am y bylchau cyflog rhwng y rhywiau.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn tynnu sylw at ein gweithlu, nifer staff yr heddlu a swyddogion yr heddlu rydym yn eu cyflogi yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein sefydliad.

Rydym am i'r rhai sy'n gweithio i Heddlu De Cymru barhau i fod yn falch, yn broffesiynol ac yn gadarnhaol ac rydym yn awyddus i ddenu'r rheini sy'n gallu hyrwyddo'r gwerthoedd hynny yn Heddlu De Cymru.

Mae Heddlu De Cymru yn cynnwys swyddogion yr heddlu sydd, fel gweision y Goron, yn gweithredu o fewn Rheoliadau'r Heddlu a strwythur cyflog y cytunwyd arno yn genedlaethol, a staff yr heddlu sy'n cael eu graddio yn unol â strwythur cyflog a gaiff ei gymhwyso'n deg i bob aelod o staff yr heddlu, ni waeth beth fo'u rhywedd.

Yn gryno, mae ein hadroddiad yn dangos nad yw dynion a merched yn cael eu talu'n wahanol am yr un math o waith yn Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, mae canran uwch o ferched yn gweithio o fewn y graddau is ar gyfer staff yr heddlu, ac mae llai o swyddogion yr heddlu sy'n ferched ar y cyfan.

Mae ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Recriwtio, Datblygu a Chadw Merched, yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed er mwyn annog merched i ymuno â Heddlu De Cymru a datblygu yn eu gyrfa; hyrwyddo amgylchedd gwaith cefnogol a hyrwyddo iechyd a lles merched.

Gydag ymrwymiad fy nhîm ac o dan gyfarwyddyd y Prif Gwnstabl Matt Jukes, rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i gyflwyno rhagor o fesurau sy'n creu gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau a'r rheini rydym yn eu gwasanaethu yn well. Edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r adroddiadau hyn bob blwyddyn, ac rwy'n hyderus y bydd ein gwaith o recriwtio a hyrwyddo yn parhau i fynd i'r afael â chydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein gweithlu.

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ni ymgymryd â'r gwaith o lunio Adroddiadau ar Gyflogau'r Rhywiau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fel y mae disgwyl i bob cyflogwr sydd â 250 o gyflogeion neu fwy ei wneud. Cânt eu cyhoeddi ar ein gwefan ni a www.gov.uk. Mae'n ofynnol i ni lunio adroddiad mewn chwe ffordd wahanol: cymedr a chanolrif y bylchau cyflog rhwng y rhywiau; cymedr a chanolrif y bylchau bonws rhwng y rhywiau (cyfran y dynion a'r merched a gafodd bonws), a nifer y dynion a'r merched yn ôl bandiau cyflog chwartel.

Mae'r gofyniad i lunio adroddiad ar gyflogau'r rhywiau yn wahanol i archwiliad cyflog cyfartal. Nid yw'n adolygiad o gyflog cyfartal am waith cyfartal, yn hytrach, mae'n cymharu cyfraddau cyflog fesul awr ac unrhyw fonysau y gall staff eu cael yn ôl rhywedd, gan geisio datgelu unrhyw anghydbwysedd.

Ym mis Mawrth 2017, gwnaeth Heddlu De Cymru gyflogi 1819 o aelodau o staff, 2950 o swyddogion a 425 o PCSOs. Caiff swyddogion a staff eu cyflogi ar delerau ac amodau gwasanaeth gwahanol. Caiff cyfraddau cyflog y ddau eu negodi yn genedlaethol.

Mae'n gwasanaethu 1.3 miliwn o bobl, sy'n cyfateb i 42% o boblogaeth Cymru. Mae ardal yr heddlu yn cwmpasu saith awdurdod lleol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

Crynodeb o'r bwlch cyflog ar gyfer taliadau bonws

Rhoddir bonysau i swyddogion am gyflawni 'tasgau eithriadol o annymunol' ac mae rheoliadau'r heddlu yn caniatáu taliadau rhwng £50 a £500. Rhoddir bonysau i staff yr heddlu am gyflawni gwaith neu gyfrifoldebau ychwanegol a'r isafswm fel arfer yr £50. Nid yw Prif Swyddogion yn cael bonysau.

Beth yw canolrif a chymedr?

Pe bai pob aelod o staff a phob swyddog yn sefyll mewn llinell o ferched a llinell o ddynion yn nhrefn cyflog o'r uchaf i'r isaf, mae'r **canolrif** yn cymharu cyflog y ferch yng nghanol ei llinell hi â chyflog y dyn yng nghanol ei linell ef.

Mae'r **cymedr** yn dangos y gwahaniaeth yn y gyfradd cyflog fesul awr gyfartalog rhwng y dynion a'r merched.

Staff yr Heddlu

Ym mis Mawrth 2017, roedd Heddlu De Cymru yn cyflogi 2244 o aelodau o Staff yr Heddlu (yn cynnwys PCSOs). Roedd 900 o'r rhain yn ddynion a 1344 yn ferched.

CANRAN Y GWAHANIAETH YN Y CYFLOG **CYMEDRIG**

6.81%

CANRAN Y GWAHANIAETH YN Y CYFLOG **CANOLRIFOL**

5.35%

Gwahaniaeth rhwng dynion a merched	Cymedr	Canolrif
Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau	**6.81%**	**5.35%**
Bwlch Bonysau Rhwng y Rhywiau	**0%**	**0%**

Cyfran y cyflogeion sy'n ddynion ac sy'n ferched mewn bandiau chwartel



Canran y gwahaniaeth yng nghyfran y dynion a'r merched sy'n cael bonws

Swyddogion yr Heddlu

Gwnaeth Heddlu De Cymru gyflogi 2950 o Swyddogion yr Heddlu.
Roedd 2060 o'r rhain yn ddynion ac 890 yn ferched.

CANRAN Y GWAHANIAETH YN Y CYFLOG **CYMEDRIG**

7.31%

CANRAN Y GWAHANIAETH YN Y CYFLOG **CANOLRIFOL**

1.64%

Gwahaniaeth rhwng dynion a merched	Cymedr	Canolrif
Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau	**7.31%**	**1.64%**
Bwlch Bonysau Rhwng y Rhywiau	**54.29%**	**0%**

Cyfran y cyflogeion sy'n ddynion ac sy'n ferched mewn bandiau chwartel



Canran y gwahaniaeth yng nghyfran y dynion a'r merched sy'n cael bonws

Staff yr Heddlu a Swyddogion yr Heddlu

CANRAN Y GWAHANIAETH YN Y CYFLOG **CYMEDRIG**

13.39%

CANRAN Y GWAHANIAETH YN Y CYFLOG **CANOLRIFOL**

20.19%

Gwahaniaeth rhwng dynion a merched	Cymedr	Canolrif
Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau	**13.39%**	**20.19%**
Bwlch Bonysau Rhwng y Rhywiau	**52.78%**	**0%**

Cyfran y cyflogeion sy'n ddynion ac sy'n ferched mewn bandiau chwartel



Canran y gwahaniaeth yng nghyfran y dynion a'r merched sy'n cael bonws

Recriwtio Merched

Yn 1998, o blith y 110 o recriwtiaid, roedd 32 ohonynt yn ferched.
Yn 2008, o blith y 69 o recriwtiaid, roedd 23 ohonynt yn ferched.
Ar ddiwedd 2017 roedd 38% o recriwtiaid yn ferched.



Casgliad ac argymhellion

Cafodd y ffigurau a nodir uchod eu cyfrifo drwy ddefnyddio methodolegau safonol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Cafodd y wybodaeth a gyflwynwyd ei chasglu ar 31/07/17, a chafodd yr holl ddata ar y diwrnod hwnnw a'r mis cyn y dyddiad hwnnw yn Heddlu De Cymru, eu hystyried.

Mae Heddlu De Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac i sicrhau y caiff amrywiaeth ei gweld a'i gwerthfawrogi o fewn ein gweithlu.

Mae cyfran y swyddogion sy'n ferched wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn ers cryn amser. Yn 1998, roedd 29% o recriwtiaid yn ferched, yn 2008, roedd 33% o recriwtiaid yn ferched, ac erbyn diwedd 2017, roedd 38% o'r recriwtiaid yn ferched.

Fodd bynnag, nid dyma lle rydym am fod. Mae swyddogion yr heddlu sy'n ferched wedi'u tangynrychioli yn Heddlu De Cymru, fel y maent ledled gwasanaeth yr heddlu yn genedlaethol.

Mae ein Cynllun Cyflawni Rhywedd yn nodi ein dull o weithio tuag at gyflawni cydbwysedd mwy cadarnhaol rhwng y rhywiau yn Heddlu De Cymru. Mae'n anelu at ymdrin â'r meysydd allweddol y credwn y byddant yn gwneud gwahaniaeth i'n nod o recriwtio, cadw a datblygu swyddogion a PCSOs sy'n ferched. Yn benodol, rydym yn ystyried sut y gallwn ddenu mwy o ferched ar bob lefel ein sefydliad, gan gynnwys yr uwch dîm arwain, ac rydym yn parhau i annog gweithio hyblyg.

O'r argymhellion yn ein Cynllun Cyflawni Rhywedd, mae ymrwymiad ein staff a'n swyddogion, ymrwymiad ac anogaeth barhaus ein Prif Swyddogion, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Uwch Dîm Rheoli, rydym yn gobeithio gwneud pob ymdrech i wneud cynnydd a pharhau i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein gweithlu.